# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
# Ceredigion
## Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

**Cyfarfod 48**
**22 Mehefin 2026, 14:00-16:00**

**Cyfarfod Ar-lein**
**COFNODION**

DRAFT

| **Yr aelodau a oedd yn bresennol:** | |
|---|---|
| Hazel Lloyd Lubran (HLL) | Cadeirydd, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |
| Barry Rees (BR) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Steve Thomas (ST) | Prifysgol Aberystwyth |
| George Holloway (GH) | Un Llais Cymru |
| Megan Harris (MH) | Tîm Iechyd y Cyhoedd Hywel Dda |
| Richard Felton (RF) *(gadawodd am 14:58)* | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Emma Armstrong (EA) *(gadawodd am 14:59)* | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Richard Dearing (RD) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Yr Uwcharolygydd Richard Yelland (RY) *(gadawodd am 14:39)* | Heddlu Dyfed-Powys |
| *Vanessa Cashmore (VC)* *(gadawodd am 15:02)* | Coleg Ceredigion/Coleg Sir Gâr |
| Ffion Thomas (FT) | Llywodraeth Cymru |

| **Hefyd yn bresennol:** | |
|---|---|
| Brigitta Deak (BD) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Sarah Isaac (SI) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Y Cynghorydd Catrin Davies (CD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Elen James (EJ) *(gadawodd am 14:57)* | Cyngor Sir Ceredigion |
| Greg Jones (GJ) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Rob Starr (RS) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carwyn Young (CY) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Elinor Ashworth-Chandler (EAC) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Emily Evans (EE) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Carys Lloyd-Jones (CLJ *(gadawodd am 15:25)* | Cyngor Sir Ceredigion |
| Brigitta Deak (BD) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Llinos Evans (LE) *(gadawodd am 15:30)* | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Gemma Cutter (GC) | Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru |
| Y Cynghorydd Keith Evans (KE) | Cyngor Sir Ceredigion |

| **Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:** | |
|---|---|
| Diana Davies (DD) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Tim Bray (TB) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Lynne Walters (LW) | Cyngor Sir Ceredigion |

| | |
|---|---|
| Neil Coetzee (NC) | Cyngor Sir Ceredigion |
| Anwen Thomas (AT) | Cyngor Sir Ceredigion (cofnodion) |
| Meinir Lewis (ML) | Cyngor Sir Ceredigion (cofnodion) |
| Carol Thomas (CT) | Cyfieithydd |
| Rhys Jones (RJ) | Cyfieithydd |

**Aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol:**

Neb yn bresennol

**48.1 Ymddiheuriadau, cyflwyniadau a datgelu buddiannau**

Croesawodd y Cadeirydd, Hazel Lloyd Lubran (HLL), bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a nododd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, cyn i'r uno â Sir Gaerfyrddin ddigwydd. Dywedodd y byddai cyfarfod ar y cyd yn cael ei gynnal ar 15 Medi.

Bu i HLL gyflwyno Ffion Thomas (FT), a fyddai'n ymuno â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ac a fyddai'n gweithio'n agos gyda ni yng Ngheredigion. Nododd FT mai ei gobaith oedd darparu cymaint o gymorth â phosibl drwy gydol y cyfnod pontio a'r broses uno.

**Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:**
Y Cynghorydd Bryan Davies – Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Matthew Vaux - Cyngor Sir Ceredigion
Gavin Bown – Cyfoeth Naturiol Cymru
Dr Ardiana Gjini – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Claire Bryant – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

**48.2 Cofnodion cyfarfod diwethaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – 13/04/2026**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13/04/2026 yn gywir.

**48.3 Cwblhau'r camau gweithredu / y materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13 Ebrill 2026**

Gofynnodd HLL i Tim Bray (TB) a oedd sylw wedi'i roi i'r materion a oedd yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf. Cadarnhaodd TB fod yr holl eitemau wedi cael sylw a'u bod naill ai wedi cael eu cwblhau neu ar fin cael eu cwblhau. Roedd rhan fwyaf y camau gweithredu yn ymwneud â rhannu gwybodaeth a gofyn am gynigion neu enwebiadau, ac roedd dal angen mynd i'r afael â rhai ohonynt.

Roedd y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ar 13/04/2026 fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Byddai Elinor Ashworth Chandler yn cael ei gwahodd yn ôl i un o gyfarfodydd y dyfodol i adolygu'r ymatebion a gafwyd ynghylch anghenion pobl hŷn yng Ngheredigion, ar ôl y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y Strategaeth Oed-gyfeillgar.<br><br>*Cytunwyd y byddai diweddariad ar y Strategaeth Oed-gyfeillgar yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 22 Mehefin 2026.* | **Elinor Ashworth Chandler** |
| **2.** | Byddai Rob Starr yn darparu'r adroddiad terfynol ynghylch data gwledig yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.<br><br>*Yn amodol ar gapasiti, byddai modd ystyried y gwaith hwn yn y cyfarfod* | **Rob Starr** |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | *nesaf. Ond, efallai y byddai angen adolygu hyn ymhellach gan mai dim ond at Geredigion y byddai'r adroddiad yn cyfeirio.* | |
| **3.** | Byddai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn archwilio'r Traciwr a byddent yn rhannu unrhyw adborth ychwanegol â TB a LW. | **Pob aelod** |
| **4.** | Byddai TB a LW yn anfon dogfen fframwaith yr adroddiad blynyddol ymlaen at Michael Thomas fel y gallai roi sylwadau yn ei chylch. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **5.** | Yn yr adroddiad am uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, byddai geiriad y troedyn ar yr effaith ariannol yn cael ei ddiwygio gan TB. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **6.** | Byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried ymhellach y geiriad yn y Cylch Gorchwyl drafft ynghylch sicrhau consensws wrth wneud penderfyniadau. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **7.** | Byddai Cathryn Morgan a Llinos Evans yn cysylltu â Michael Thomas i drafod y cwestiynau ymgysylltu. | **Cathryn Morgan**<br>**Llinos Evans** |
| **8.** | Byddai pob partner yn cyfrannu at waith y grŵp asesu ac ymgynghori. | **Pob aelod** |
| **9.** | Byddai MH yn gwneud ymholiadau ynglŷn â rhannu data am bobl agored i niwed rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r awdurdod lleol. | **Megan Harris** |
| **10.** | Byddai gwaith pellach ar y mesurau lliniaru a nodwyd yn yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Llesiant ar y cyd. | **Y Tîm Partneriaethau** |
| **11.** | Byddai'r Tîm Partneriaethau yn gwneud ymholiadau ynghylch y posibilrwydd o gael cymorth pellach gan Broject Dewi | **Y Tîm Partneriaethau** |

| | |
|---|---|
| **48.4** | **Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion:** |

- **Adolygu'r Traciwr Gweithgareddau (Cyfarfod #48)**

Dywedodd Tim Bray (TB) y byddai'r traciwr yn parhau i fod ar waith ac yn parhau i gael ei ddefnyddio, gan gynnwys yn y cyfarfod cyntaf ar ôl yr uno, a nododd fod dull gweithredu tebyg eisoes yn cael ei ddefnyddio yn Sir Gaerfyrddin. Roedd tracwyr Ceredigion a Sir Gaerfyrddin wedi cael eu defnyddio wrth baratoi'r cynllun interim ar y cyd. Ni chafwyd unrhyw ddiweddariadau am y chwarter diwethaf. Fodd bynnag, roedd y traciwr wedi bod yn adnodd defnyddiol wrth lunio'r cynllun newydd ac wrth gefnogi'r cyfnod pontio.

Byddai'r cynllun interim arfaethedig ar y cyd yn parhau ar ffurf drafft tan 15 Medi. Ar ôl iddo gael ei gadarnhau, byddai'r traciwr yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu statws y camau gweithredu bryd hynny, gan gynnwys y rhai a oedd wedi'u cwblhau a'r rhai a oedd wedi'u cau.

- **Adroddiad Blynyddol 2025/26**

DRAFT

DRAFT

Cadarnhaodd TB nad oedd yr Adroddiad Blynyddol drafft wedi'i gyfieithu eto a gofynnodd i'r aelodau adolygu'r ddogfen a rhoi eu hadborth, gan nodi unrhyw anghysondebau. Roedd drafft terfynol yr adroddiad bron yn barod, yn amodol ar gytundeb yr aelodau.

Rhoddodd TB drosolwg o'r adroddiad a diolchodd i Sara Dafydd am ei chyfraniad o ran y diwyg, gan nodi ei fod yn glir ac yn ddeniadol yn weledol. Roedd yr adrannau agoriadol yn darparu gwybodaeth statudol, gan gynnwys gwybodaeth am rôl, diben a chyfrifoldebau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno mewn fformat hygyrch a oedd yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer adroddiadau blynyddol.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y Siarter Gwaith Teg, a ddatblygwyd drwy'r Is-grŵp Tlodi, ac roedd yn amlinellu'r argymhellion a'r ymrwymiadau. Byddai'r gwaith hwn yn parhau ac yn cael ei gynnwys yn fersiwn nesaf y Cynllun (hyd at 2028). Ymhlith y meysydd allweddol ychwanegol a oedd yn cael eu hamlygu yr oedd y canlynol: sylw manwl i fwyd, gan gynnwys y dull systemau cyfan a'r gwaith cydweithio yn rhanbarthol, allbynnau'r gweithdy "Gwreiddiau Newid", a'r gwaith ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd a wnaed gan Miller Research ac a arweiniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Cynigiwyd y byddai'r meysydd gwaith penodol hyn yn parhau fel rhan o'r cynllun interim ar y cyd.

Tynnodd TB sylw at y rhaglen gadarn o weithgarwch ymgysylltu, gan nodi'r amrywiaeth o ddigwyddiadau yr oeddem yn mynd iddynt i ymgysylltu â'r cymunedau a hyrwyddo gwaith y Bwrdd.

Cyfeiriodd TB hefyd at y bwriad i uno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, gan nodi'r uchelgais i fabwysiadu dull gweithredu cryfach wrth symud ymlaen gyda'n gilydd.

Gwahoddwyd yr Aelodau i gyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol drafft. Mynegodd y Cynghorydd Catrin Davies (CD) bryderon bod y ddogfen wedi'i drafftio yn Saesneg cyn iddi gael ei chyfieithu i'r Gymraeg, a dywedodd ei bod yn bosibl felly na fyddai'r un amlygrwydd yn cael ei rhoi i'r Gymraeg. Tynnodd CD sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â chyfieithu ffeithluniau, gan ei bod yn anodd eu haddasu'n effeithiol os nad ydynt wedi'u paratoi'n wreiddiol yn y Gymraeg.

Rhoddodd Diana Davies (DD) sicrwydd i'r aelodau fod y ffeithluniau a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynyddol drafft eisoes ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Esboniodd DD, er y byddai wedi bod yn ddelfrydol cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft yn ddwyieithog heddiw, nad oedd hynny wedi bod yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser a'r broses ddatblygu. Pwysleisiodd DD mai'r arfer cyffredin oedd cynhyrchu deunyddiau yn ddwyieithog a chadarnhaodd mai dyma oedd yr arfer o hyd. Fodd bynnag, gan mai hwn oedd cyfarfod olaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, ystyriwyd ei bod yn bwysig rhannu'r fersiwn Saesneg ar hyn o bryd, gyda fersiwn ddwyieithog lawn i ddilyn ar ôl i'r adroddiad gael ei gwblhau'n derfynol.

Gofynnodd HLL i Llinos Evans (LE) a oedd Sir Gaerfyrddin yn dilyn yr un arferion o ran cyfieithu a sicrhau bod y deunyddiau'n ddwyieithog. Cadarnhaodd LE fod Sir Gaerfyrddin yn gwneud yr un fath ac ailbwysleisiodd y byddai'r safon hon yn cael ei chynnal fel rhan o'r cydweithio yn y dyfodol.

Dywedodd Megan Harris (MH) fod yr adroddiad yn dda iawn ac yn hygyrch a bu iddi ganmol y ffaith bod gwaith yr artist wedi'i gynnwys. Croesawodd hefyd ddiwyg yr adroddiad a'r ffaith ei fod yn hawdd ei ddarllen, gan nodi ei fod yn ddiddorol ac nad oedd yn cynnwys gormod o destun.

Dywedodd HLL fod defnyddio ffeithluniau a delweddau yn ffordd arbennig o effeithiol a nodedig o gyflwyno'r gwaith a gyflawnwyd.

**Cam Gweithredu: Byddai pob aelod yn adolygu'r Adroddiad Blynyddol drafft ac yn cyflwyno unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu newidiadau i Tim Bray erbyn 29 Mehefin 2026.**

**Cam Gweithredu: Bydd y Tîm Partneriaethau yn ymgorffori unrhyw adborth a dderbynnir ac yn dosbarthu'r fersiwn derfynol yn ôl i'r aelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol terfynol i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion ym mis Hydref 2026.**

| **48.5** | **Y diweddaraf am Uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** |
|---|---|

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu'r Uniad rhwng y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

- **Y diweddaraf am y Cynllun Llesiant Llesol Interim ar y Cyd**

Dywedodd TB fod y grŵp wedi cyfarfod ar 21 Mai i ystyried llunio cynllun interim ar y cyd am gyfnod o 18 mis, a fyddai'n pontio'r cyfnod rhwng y Cynlluniau Llesiant presennol a'r cynllun newydd a oedd i fod i gael ei gyflwyno yn 2028. Byddai'r cynllun interim ar y cyd yn dod i rym ar 15 Medi a byddai hyn yn nodi'r newid o drefniadau presennol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Bwrdd unedig newydd.

Cynhaliwyd ymarfer mapio manwl, a oedd yn cynnwys mewnbwn gan gynrychiolwyr o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, er mwyn nodi'r meysydd blaenoriaeth a'r hyn a oedd yn gyffredin rhwng y ddau Gynllun Llesiant presennol. Nododd TB fod cryn orgyffwrdd rhwng y ddau. Roedd y broses fapio yn dadansoddi amcanion a gweithgareddau'r ddwy sir gan gynnwys y cynnydd a wnaed. Hefyd, roedd y broses yn nodi'r meysydd i'w dwyn ymlaen, y meysydd a oedd yn cael eu harwain gan bartneriaid eraill a'r meysydd lle gwnaed llai o gynnydd. Cyflwynwyd y gwaith hwn yn weledol a chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad. Yn sgil yr ymarfer hwn, nodwyd pum thema gychwynnol: Economi a Sgiliau, Cydweithio ac Integreiddio, Hinsawdd a Natur, Gallu a Gwydnwch Cymunedol, a Chymunedau Buddiant / Dull Systemau Cyfan Integredig.

Cyflwynwyd y themâu hyn, ynghyd â'r camau gweithredu a awgrymwyd ar gyfer y tymor byr, i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ym mis Mai i'w hystyried. Roedd adborth y grŵp yn gadarnhaol, ac roedd yr aelodau'n cefnogi'r fethodoleg ac yn cadarnhau nad oedd unrhyw feysydd arwyddocaol wedi'u hepgor.

Fodd bynnag, er mwyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig gael yr effaith fwyaf posibl yn ystod y cyfnod interim hwn, ac er mwyn caniatáu hyblygrwydd, cytunwyd y dylid rhesymoli nifer y themâu a chanolbwyntio ar lai o feysydd blaenoriaeth. Cadarnhaodd TB fod yr adborth hwn wedi'i ystyried a bod rhagor o waith wedi'i wneud, a oedd wedi arwain at dair thema flaenoriaeth fwy penodol: Bwyd a Llesiant, Tlodi a Chaledi a Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur.

Diolchodd HLL i TB ac i bawb a fu'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gwaith interim, gan nodi ei fod yn galluogi'r Bwrdd i barhau â'r cynnydd a oedd wedi'i wneud hyd yma cyn symud tuag at y Cynllun Llesiant nesaf.

Gofynnodd HLL i LE a oedd y cynigion ynghylch y themâu wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin. Cadarnhaodd LE mai'r bwriad oedd eu cyflwyno gerbron aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ar 21 Gorffennaf.

Nododd TB y byddai unrhyw adborth ar y gwaith hwn yn cael ei groesawu. Ymatebodd MH drwy awgrymu y dylid egluro'r geiriad ynghylch gwydnwch cymunedol a hunangynhaliaeth yn yr adran ar fwyd, ac argymhellodd y dylid cynnwys cyfeiriad at sicrhau mynediad at fwyd iach a fforddiadwy. Awgrymodd fod angen adlewyrchu'n well sut y byddai'r cynllun gwaith yn mynd i'r afael â thlodi ac yn ei leihau, gan gynnwys defnyddio data yn gliriach wrth roi'r camau gweithredu ar waith a chefnogi'r mentrau a oedd eisoes yn bodoli. Awgrymodd MH hefyd y dylid cryfhau'r cysylltiadau â'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ar y cyd gan bartneriaid y sector cyhoeddus ynghylch addasu i'r hinsawdd a datgarboneiddio.

Pwysleisiodd Barry Rees (BR) pa mor bwysig oedd parhau i ganolbwyntio ar dlodi gwledig wrth symud tuag at weithio rhanbarthol. Tynnodd sylw at y ffaith bod tlodi gwledig, yn enwedig yng Ngheredigion, yn cyflwyno heriau penodol, gan gynnwys ynysigrwydd cymdeithasol a mynediad cyfyngedig at wasanaethau, a phwysleisiodd ei bod yn hanfodol bod hyn yn parhau'n ystyriaeth allweddol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Nododd BR fod gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud yng Ngheredigion i ddiffinio a deall tlodi gwledig a dylai hyn gael ei gadw. Cytunodd HLL â'r sylwadau a wnaed, gan nodi pwysigrwydd sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gwaith a wneir yn y dyfodol. Awgrymwyd y byddai angen i LE sicrhau bod y neges hon yn cael ei hadlewyrchu yn y dogfennau a fyddai'n mynd gerbron Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

Cadarnhaodd MH fod tlodi gwledig hefyd yn cael ei gydnabod o fewn y Bwrdd Iechyd, er nad yw wastad i'w weld mor amlwg yn y data. Nododd fod hyn yn cael ei godi'n rheolaidd yn ystod trafodaethau am iechyd y cyhoedd ledled y rhanbarth ac awgrymodd y dylid cyfeirio ato'n benodol yn y cynllun gwaith, gan gydnabod bod tlodi gwledig yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd ac y gallai fod angen rhoi dulliau gweithredu gwahanol ar waith. Ychwanegodd HLL y bu pwyslais cyson yng Ngheredigion nad mater ariannol yn unig yw tlodi ond ei fod hefyd yn ymwneud â mynediad at wasanaethau a chyfleoedd.

**Cam Gweithredu: Byddem yn parhau i ganolbwyntio ar dlodi gwledig yn y Cynllun Gweithredu Interim ar y Cyd a byddai camau gweithredu uniongyrchol yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyflawni.**

- **Cylch gorchwyl drafft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd**

Nodwyd bod y Cylch Gorchwyl wedi cael ei ystyried yn flaenorol gan Fwrdd Sir Gaerfyrddin, lle gwnaed mân newid mewn perthynas â'r enwau a oedd yn cael eu henwebu gan Hywel Dda, gan egluro pan fo cyfarwyddwr yn enwebu rhywun, fod yn rhaid i drefniadau priodol fod ar waith i sicrhau cynrychiolaeth o ddwy ochr y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru. Daethpwyd â'r Cylch Gorchwyl diwygiedig yn ôl gerbron Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn y cyfarfod hwn heddiw i'w adolygu cyn y byddai'n mynd yn ôl i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ac yna'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd unedig i'w gadarnhau a'i fabwysiadu'n derfynol yn y cyfarfod cyntaf ar 15 Medi. Gofynnwyd a oedd y Bwrdd Iechyd wedi

adolygu'r gwelliant. Nodwyd bod Bruce Bolam wedi bod yn rhan o'r drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol, a dywedodd MH y byddai'n mynd ar drywydd hyn.

**Cam Gweithredu: Byddai'r Bwrdd Iechyd yn adolygu cynrychiolaeth y Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

**Penderfyniad: Cymeradwyodd aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gylch Gorchwyl drafft y Bwrdd unedig.**

- **Trafodaeth ynghylch enwebiadau ar gyfer y Bwrdd unedig newydd**

Pwysleisiodd HLL bwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth briodol, gan gynnwys cynrychiolaeth gref o Geredigion er mwyn cefnogi'r cynnydd a fyddai'n cael ei wneud a sicrhau bod cymunedau yn cael eu cynrychioli'n deg ar y Bwrdd unedig newydd.

Cyflwynodd TB rhestr ddiweddaraf aelodau arfaethedig y Bwrdd unedig, gan nodi nad oedd y llythyrau i wahodd yr aelodau wedi'u hanfon eto. Gwahoddwyd yr Aelodau i awgrymu newidiadau.

Roedd y cynrychiolwyr arfaethedig yn cynnwys y Cynghorydd Bryan Davies (Arweinydd Ceredigion) a'r Cynghorydd Linda Davies-Evans (Arweinydd Sir Gaerfyrddin), ac ystyriwyd ei bod yn debygol y byddai'r penodiadau hyn yn cael eu gwneud. Yn unol â'r Cylch Gorchwyl, nodwyd y byddai Cadeiryddion Craffu Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Caerfyrddin yn cael eu cadw am y 12 mis cyntaf o leiaf, er mwyn sicrhau trosolwg cytbwys ar draws y ddwy sir, a byddai'r ddau yn derbyn yr un adroddiadau.

Cynhaliwyd trafodaethau pellach ynglŷn â'r rhestr aelodau arfaethedig, ac fel rhan o hyn, gwnaed cywiriadau, cynigiwyd awgrymiadau a chadarnhawyd enwau. Nodwyd bod angen i rai sefydliadau gael trafodaethau pellach yn fewnol, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Aberystwyth, CAVS a CAVO. Byddai trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal ynghylch sicrhau cynrychiolaeth o blith y cynghorau tref a chymuned.

**Cam Gweithredu: Yn dilyn trafodaethau mewnol o fewn eu sefydliadau, byddai'r aelodau yn cysylltu â Tim Bray i ddarparu unrhyw ddiweddariadau, cywiriadau, neu gadarnhad o enwau ar gyfer aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig.**

| **48.6** | **Grŵp Ysgrifennu'r Asesiad o Lesiant Lleol a'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgysylltu** |
|---|---|

Rhoddodd Rob Starr (RS) ddiweddariad am y cynnydd a wnaed ar yr asesiad o lesiant lleol, gan nodi bod gwaith o fewn y Grŵp Ysgrifennu yn mynd rhagddo'n dda a'i fod ychydig ar y blaen i'r amserlen. Roedd dull newydd o gasglu data wedi'i fabwysiadu, gan ddefnyddio ffurflen strwythuredig yn seiliedig ar ganllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau dogfen symlach a mwy cryno.

Roedd gwaith hefyd ar y gweill i gytuno ar strwythur a fformat cyffredinol yr asesiad o lesiant lleol er mwyn sicrhau eglurder ac osgoi dogfen a fyddai'n rhy hir ac roedd yr adborth i'r cynigion cychwynnol yn gadarnhaol.

Un mater allweddol a godwyd oedd pa mor addas oedd y model presennol a oedd yn seiliedig ar gyfnodau bywyd. Oherwydd bod mwy a mwy o themâu trawsbynciol yn dod i'r amlwg, cynigiwyd y gallai dull thematig fod yn fwy priodol. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried a fyddai'n cefnogi'r syniad o symud oddi wrth y model cyfnodau bywyd a chyflwyno dull thematig yn ei le.

**Penderfyniad: Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd i symud oddi wrth y model cyfnodau bywyd a chefnogi'r broses o fabwysiadu dull thematig ar gyfer yr asesiad o lesiant lleol.**

Dywedwyd bod yr ymgyrch ymgysylltu wedi'i lansio ar 8 Mehefin ac y byddai'n para tan 8 Awst. Rhoddodd LE y wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgarwch ymgynghori. Nododd fod amrywiaeth o adnoddau wedi'u datblygu ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion, gan gynnwys arolwg ar-lein amlieithog, gyda fersiynau ar gyfer plant a phobl ifanc, ynghyd â gwaith hyrwyddo yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd rhaglen o weithgareddau ymgysylltu yn cael ei datblygu ar draws y tair sir, gan gynnwys gweithdai, a byddai sesiwn benodol yn cael ei chynnal yn Eisteddfod y Garreg Las ar 7 Awst. Anogwyd yr aelodau i rannu manylion unrhyw ddigwyddiadau perthnasol eraill a fyddai'n cael eu cynnal ar draws Ceredigion, er mwyn cefnogi pob agwedd ar y gweithgarwch ymgysylltu cyn i'r cyfnod ar gyfer hyn ddod i ben ar 8 Awst.

Roedd yr ymateb hyd yma wedi bod yn gadarnhaol. Roedd tua 230 o ymatebion wedi dod i law ar draws y tair sir yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf, ac anogwyd pawb i barhau i hyrwyddo'r ymgyrch.

| | |
|---|---|
| **48.7** | **Diweddariad yr Is-grŵp Tlodi** |

Rhoddodd CD, Cadeirydd yr Is-grŵp Tlodi, ddiweddariad ar waith yr Is-grŵp Tlodi yn ystod 2025/26. Roedd Elaine Evans (aelod etholedig) yn parhau'n Is-gadeirydd, ac roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid o'r trydydd sector.

Roedd rhaglen waith yr is-grŵp yn canolbwyntio ar ddau brif amcan: lleihau costau a chynyddu incwm a gwella dealltwriaeth o dlodi lleol gan fynd i'r afael â stigma ar yr un pryd. Roedd y cyflwyniadau rheolaidd gan y sefydliadau sy'n bartneriaid wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael a gwella'r broses o gyfeirio pobl atynt, gan ymdrin â meysydd megis tlodi tanwydd, cyngor ar ynni, mentrau bwyd cymunedol a mannau cynnes/croesawgar. Roedd e-fwletin Costau Byw misol yn parhau i gael ei gynhyrchu, gan ddwyn ynghyd wybodaeth am bynciau megis cyflogadwyedd, cymorth i bobl hŷn a chynhwysiant digidol, a darparu dolenni i'r tudalennau ar wefan y Cyngor sy'n darparu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael.

Roedd y gwaith o gynyddu ein dealltwriaeth o dlodi yn cynnwys rhannu data a thueddiadau (gyda chymorth y tîm Perfformiad ac Ymchwil), gan ganolbwyntio ar feysydd megis tlodi gwledig, tlodi plant a phrydau ysgol am ddim. Roedd y grŵp hefyd yn cynnal sesiynau dysgu ar y cyd er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf.

Un prosiect allweddol ar gyfer 2025/26 oedd cael cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer y Siarter Gwaith Teg, a ddatblygwyd yn 2024/25. Roedd y Siarter yn gofyn i'r partneriaid ymrwymo i egwyddorion gwaith teg. Er bod cynnydd da wedi'i wneud yn y meysydd lle oedd gennym reolaeth uniongyrchol,

DRAFT

braidd yn araf fu'r cynnydd a wnaed o ran yr uchelgais ehangach a rennir ac roedd angen cydweithio pellach.

Roedd yr is-grŵp hefyd wedi dechrau adolygu ei raglen waith o ystyried y bwriad i uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

Tynnodd HLL sylw at werth yr e-fwletin Costau Byw ac anogodd yr aelodau i gofrestru i'w dderbyn, Ychwanegodd ei bod yn gadarnhaol nodi fod y partneriaid yn Sir Gaerfyrddin yn awyddus i ddatblygu rhywbeth tebyg.

| 48.8 | **Y Dull Systemau Cyfan (Pwysau Iach): Diweddariad ar y gweithdy Gwreiddiau Newid – y cynnydd a wnaed a'r camau nesaf** |
|---|---|

Nodwyd bod diweddariad ysgrifenedig wedi dod i law ac y byddai'n cael ei ddosbarthu gyda'r cofnodion:

- Roedd cofnodion gweledol o'r gweithdy diweddar wedi'u dosbarthu ac wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol.
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus, gyda ffocws ar bennu gwaelodlin. Gofynnir i holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gefnogi'r cais am ddata a'i gwblhau.
- Roedd rhywfaint o waith cysylltiedig eisoes wedi'i wneud yn Sir Gaerfyrddin, a oedd yn rhan o gonsortiwm caffael bwyd dan arweiniad Caerffili.

| 48.9 | **Y diweddaraf am yr Hinsawdd a Natur** |
|---|---|

- **Gwybodaeth a Thrafodaeth am yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd: Richard Dearing, Cyfoeth Naturiol Cymru**
  **Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar y Cyd rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Gaerfyrddin**

Dywedodd Richard Dearing (RD) fod yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd ar y cyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi'i gwblhau, a'i fod yn darparu sylfaen dystiolaeth gyffredin o'r risgiau hinsawdd sy'n effeithio ar gymunedau, seilwaith, gwasanaethau cyhoeddus a'r amgylchedd naturiol. Roedd yr asesiad yn cadarnhau bod newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar y rhanbarth h.y. mwy o lifogydd, digwyddiadau tywydd eithafol, tymheredd sy'n codi a newidiadau arfordirol, ac roedd disgwyl i'r risgiau hyn ddwysáu dros amser.

Roedd y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn cynnwys llifogydd a newidiadau arfordirol, yr effaith andwyol ar seilwaith a gwasanaethau a'r pwysau amgylcheddol, ac roedd yr asesiad yn tynnu sylw at natur gydgysylltiedig y risgiau hyn a'u heffeithiau ehangach. Nodwyd y cryfderau presennol a'r gwaith addasu a oedd eisoes ar y gweill, ynghyd â'r meysydd lle'r oedd angen rhagor o gapasiti, gwaith cydgysylltu a thystiolaeth. Roedd yr adborth o gyfarfod blaenorol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol, a oedd wrthi'n cael ei gyfieithu.

Roedd y trefniadau llywodraethu yn cael eu mireinio ar hyn o bryd gan fod y ddau Fwrdd yn uno, ac roedd y Gweithgor ar y Cyd yn parhau i gyfarfod i ystyried y camau nesaf, gan gynnwys datblygu

DRAFT

strategaeth addasu ac ystyried rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol o ran ymateb i'r risgiau a nodwyd. Hefyd, ystyriwyd cynnal rhagor o weithgarwch ymgysylltu â'r gymuned er mwyn gwella dealltwriaeth o'r effeithiau lleol, gan sicrhau bod hyn yn ategu'r gweithgarwch ymgysylltu presennol a'i fod yn osgoi dyblygu. Byddai'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd yn cyfrannu at yr Asesiad o Lesiant Lleol ac yn cefnogi'r gwaith cynllunio yn y dyfodol mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac unrhyw wendidau sy'n bodoli yn wyneb newid hinsawdd.

Cafwyd trafodaeth ar ôl hynny, a oedd yn canolbwyntio ar gynnal momentwm y gwaith newid hinsawdd yn dilyn uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn enwedig o ran cyflawni cynllun gweithredu'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd. Nodwyd bod cryn ymdrech wedi'i gwneud i sefydlu'r grŵp presennol, a bod cefnogaeth gref i gadw'r arbenigedd hwn a pharhau â'r gwaith trwy is-grŵp estynedig neu ddiwygiedig yn hytrach na diddymu'r partneriaethau presennol. Awgrymwyd y byddai'r dull hwn yn helpu i sicrhau parhad, cynnal y trefniadau o ran gweithio mewn partneriaeth, a chefnogi cysondeb ar draws strategaethau'r sefydliadau unigol, gan gynnwys cyfleoedd i gydweithio.

Tynnodd yr aelodau sylw at bwysigrwydd cydweithio ar lefel ranbarthol, gan gydnabod bod yr heriau o ran yr hinsawdd yn gyffredin i Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, ac y byddai cydweithio yn hanfodol. Cytunwyd y byddai'r cynigion ar gyfer y trefniadau yn y dyfodol yn cael eu hystyried a'u cytuno'n ffurfiol yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ôl uno er mwyn sicrhau eglurder a pharhau i wneud cynnydd.

**Cam Gweithredu: Yn ystod cyfarfod cyntaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ar ôl yr uno, byddai Tim Bray yn cadarnhau trefniadau'r is-grŵp newid hinsawdd a'r strwythurau partneriaeth ar gyfer y dyfodol.**

Gofynnodd Steve Thomas (ST) a oedd y cyfleoedd sy'n deillio o newid hinsawdd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r gwaith o liniaru'r risgiau, a thynnodd sylw at yr angen i nodi'r cyfleoedd economaidd ac amgylcheddol sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt. Gwnaeth RD gydnabod y pwynt hwn a nododd fod cyfleoedd, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r economi werdd a rheoli tir yn gynaliadwy, yn cael eu harchwilio drwy'r gwaith presennol ar newid hinsawdd. Nodwyd y byddai'r cyfleoedd hyn yn cael eu datblygu a'u hamlinellu ymhellach fel rhan o'r cynllun addasu a oedd yn cael ei baratoi.

| 48.10 | **Y diweddaraf am y Strategaeth Oed-gyfeillgar** |
|---|---|

Cyflwynodd Elinor Ashworth-Chandler (EAC), Arweinydd Prosiect Heneiddio'n Dda yng Ngheredigion, ganfyddiadau gwaith ymgysylltu Ceredigion Oed-gyfeillgar, gan amlinellu'r gwaith a wnaed ers i'r sir ymuno â Rhwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar ym mis Hydref 2024. Roedd yr ymgynghoriad yn rhan o gam "ymgysylltu a deall" fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd a'i nod oedd casglu profiadau bywyd trigolion hŷn er mwyn cyfrannu at y gwaith cynllunio yn y dyfodol. Cynhaliwyd y gwaith ymgysylltu rhwng Tachwedd 2025 a Mawrth 2026 trwy rannu arolygon, cynnal grwpiau ffocws a bod yn bresennol mewn 27 o ddigwyddiadau cymunedol. Ymgysylltwyd â chyfanswm o 439 o bobl, ac roedd 237 o'r cyfranogwyr wedi darparu adborth manwl. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr yn 50

DRAFT

oed a throsodd, a llawer o’r rhain rhwng 60 a 79 oed. Hefyd, roedd cyfran uwch o’r cyfranogwyr yn fenywod.

Er bod mannau cyhoeddus yn cael eu hystyried yn ddiogel ar y cyfan a bod trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei hystyried yn fforddiadwy oherwydd prisiau teithio rhatach, dangosodd y canfyddiadau fod yna bryderon sylweddol ynghylch y canlynol: dibynadwyedd trafnidiaeth, y ffaith mai nifer cyfyngedig o lwybrau sydd ar gael, cynnal a chadw ffyrdd, fforddiadwyedd tai a’r canfyddiad nad oes gan bobl fawr o ddylanwad ar y broses gwneud penderfyniadau. Un o’r materion a oedd yn bwysig i bobl oedd mynediad at doiledau cyhoeddus gan fod hyn yn effeithio ar allu pobl i dreulio amser yn eu cymunedau. Cafwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â’r gwelliannau i lwybrau teithio llesol, er bod pryderon yn parhau ynglŷn â gwaith cynnal a chadw, gan gynnwys materion yn ymwneud â phalmentydd, meinciau, tyllau yn y ffyrdd a baw cŵn. Nodwyd bod trafnidiaeth yn fater allweddol a oedd yn effeithio ar sawl agwedd ar fywyd. Dywedodd llawer o’r trigolion mai cyfyngedig oedd eu mynediad at drafnidiaeth neu nad oedd ganddynt fynediad o gwbl ac ychwanegwyd bod y cysylltiadau yn wael a’r amserlenni yn anghyfleus.

Tynnwyd sylw at y ffaith fod tai yn her sylweddol, yn enwedig prinder llety fforddiadwy ac addas ar gyfer pobl hŷn a thrigolion iau a oedd yn dymuno parhau i fyw'n lleol. Roedd y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol yn cael eu hystyried yn gadarnhaol ar y cyfan, ond roedd trafnidiaeth, diffyg gwybodaeth ac amser y gweithgareddau hyn yn aml yn effeithio ar allu pobl i fynd iddynt, yn enwedig y bobl a oedd yn dal i weithio. Roedd profiadau o gynhwysiant cymunedol yn amrywio, gyda rhai yn ystyried y ddarpariaeth Gymraeg yn gadarnhaol, ond eraill yn ei gweld fel rhwystr. Mynegodd llawer o’r cyfranogwyr nad oedd ganddynt yr hyder i ddylanwadu ar benderfyniadau, gan gyfeirio ar y diffyg adborth yn dilyn ymgynghoriadau. Codwyd pryderon yn gyson ynghylch cyfathrebu a mynediad at wybodaeth a gwnaeth llawer awgrymu bod angen ffyrdd cliriach a mwy hygyrch o gael gwybod am wasanaethau a gweithgareddau lleol. Hefyd, cydnabuwyd bod allgáu digidol yn broblem. O ran iechyd a gofal, nododd y cyfranogwyr anawsterau wrth geisio cael apwyntiadau gyda meddygon teulu, pryderon ynghylch amseroedd aros a heriau wrth deithio i gael gwasanaethau ysbyty, yn ogystal â phryderon ynghylch y ddarpariaeth gofal yn y dyfodol.

Ar y cyfan, dangosodd y canfyddiadau fod llawer o’r materion, yn enwedig trafnidiaeth a chyfathrebu, yn gysylltiedig â’i gilydd a’u bod yn effeithio ar sawl agwedd ar fywyd bob dydd. Byddai’r cam nesaf yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynllun gweithredu Ceredigion Oed-gyfeillgar, ochr yn ochr â pharhau i ymgysylltu â chymunedau er mwyn sicrhau bod yr hyn a wneir yn parhau i gael ei arwain gan y gymuned a’i fod yn ymateb i anghenion lleol.

Ystyriodd yr Aelodau sut y gellir adlewyrchu canfyddiadau'r Strategaeth Weithredu Oed-gyfeillgar yn yr Asesiad o Lesiant Lleol, gan nodi, er bod y gwaith ymgysylltu wedi canolbwyntio ar bobl hŷn, fod y materion a nodwyd yn berthnasol i'r gymuned ehangach. Cadarnhaodd DD y byddai’r adborth yn cael ei gynnwys yn yr Asesiad o Lesiant Lleol ac y byddai’n cyfrannu at y Cynllun Llesiant Lleol nesaf, yn ogystal â helpu i lunio camau gweithredu o fewn y Cyngor ac ar draws y partneriaethau. Cytunwyd y dylid bwrw ymlaen â hyn ar y cyd, ac y byddai’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cefnogi'r camau nesaf drwy ei rwydweithiau ac yn derbyn diweddariad pellach gan EAC yn y dyfodol.

DRAFT

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn gwahodd Elinor Ashworth-Chandler i roi diweddariad pellach i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn un o gyfarfodydd y dyfodol.**

| 48.11 | Ymgynghoriad ynghylch Gwasanaethau Strôc Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
|---|---|

Rhoddodd Sarah Isaac (SI) drosolwg o adolygiad y Bwrdd Iechyd ynghylch y gwasanaethau strôc fel rhan o'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol, gan nodi bod angen gwneud newidiadau er mwyn mynd i'r afael â natur fregus y gwasanaeth a sicrhau bod y gwasanaethau'n bodloni'r safonau gofynnol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynharach, nid oedd yr un o'r opsiynau gwreiddiol yn mynd i'r afael yn llawn â'r materion a godwyd, ac roedd rhagor o waith wedi'i wneud i ddatblygu opsiwn a ffefrir. Lansiwyd Cam 2 yr ymgynghoriad, a fyddai'n para wyth wythnos, ar 28 Mai 2026 a'i nod oedd gofyn am farn pobl ar y model a ffefrir. Roedd yr opsiwn a ffefrir yn cynnig model canolog gydag uned strôc arbenigol 24 awr yn Ysbyty Glangwili a chefnogaeth trefniadau "trin a throsglwyddo" ar safleoedd eraill. Hefyd byddai yna ddarpariaeth adsefydlu yn Ysbyty Bronglais a chydweithio rhanbarthol yn yr hirdymor. Amlinellwyd hefyd yr opsiynau amgen a ystyriwyd yn flaenorol er mwyn gallu eu cymharu.

Roedd effeithiau posibl y newidiadau arfaethedig wedi'u hasesu, gan gynnwys ystyriaethau a oedd yn ymwneud â theithio a thrafnidiaeth, y Gymraeg a'r nodweddion gwarchodedig drwy'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu yn cael eu defnyddio wrth ymgynghori ac roedd cyfnod yr ymgynghoriad wedi'i ymestyn i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn medru cymryd rhan. Serch hynny, nid oedd y Bwrdd yn gofyn i bobl gynnig opsiynau newydd ar hyn o bryd.

Byddai'r adborth yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi. Dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn oedd 26 Gorffennaf 2026.

| 48.12 | Y diweddaraf am waith Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru |
|---|---|

Cafwyd cyflwyniad gan Gemma Cutter (GC), Cyfarwyddwr Rhanbarthol Partneriaeth Chwaraeon Canolbarth Cymru (MWSP), a roddodd drosolwg o'i rôl a'i datblygiad fel un o'r pum partneriaeth ranbarthol yng Nghymru. Roedd y partneriaethau hyn wedi'u sefydlu, gyda chyllid gan Chwaraeon Cymru, i ddarparu arweinyddiaeth, gwaith cynllunio a phrosesau chomisiynu ar lefel strategol ar gyfer chwaraeon, gweithgarwch corfforol a symud.

Nodwyd bod y Bartneriaeth yn sefydliad cymharol newydd a bach sy'n gweithio ar draws rhanbarth mawr ac amrywiol, a'i bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cymryd rhan a sicrhau bod mwy o bobl yn manteisio ar weithgarwch corfforol. Roedd y bartneriaeth yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio â phartneriaid lleol er mwyn adeiladu ar y cryfderau presennol ac ymateb i anghenion y cymunedau, ar sail data a dealltwriaeth o ddemograffeg y rhanbarth.

DRAFT

Clywodd yr aelodau nad oedd y bartneriaeth yn ceisio disodli'r rhaglenni presennol, ond yn hytrach ei nod oedd ychwanegu gwerth drwy gryfhau cydweithio, cefnogi'r hyn a ddarperir yn lleol, a chysylltu'r systemau cenedlaethol â gweithgarwch lleol. Roedd y buddsoddiad cychwynnol wedi arwain at brosiectau a oedd yn canolbwyntio ar gyflogadwyedd a mynediad at weithgareddau awyr agored, yn ogystal â chefnogi mentrau llai ac arloesol.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd dull gweithredu rhanbarthol, gan gynnwys sicrhau llai o ddyblygu, rhannu gwybodaeth, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a chynyddu'r cyfleoedd i'r rhai sydd leiaf egnïol. Nod y Bartneriaeth oedd sicrhau bod chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn dod yn rhan o fywyd bob dydd, a'i fod yn cyfrannu at gymunedau iachach a hapusach.

Roedd y blaenoriaethau presennol yn cynnwys datblygu'r sefydliad, llunio ei gyfeiriad strategol, deall yr anghenion rhanbarthol, ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid. Anogwyd yr aelodau i ymgysylltu â'r Bartneriaeth trwy gyd-ddylunio, rhannu data a gwybodaeth, a helpu i lunio blaenoriaethau lleol.

Nododd HLL pa mor bwysig y gallai'r bartneriaeth hon fod, gan gynnwys y cysylltiadau â'r partneriaethau iechyd a gofal rhanbarthol ledled canolbarth a gorllewin Cymru. Tynnwyd sylw hefyd at y cyfleoedd i gydweithio mewn perthynas â'r Strategaeth Weithredu Oed-gyfeillgar, yn enwedig o ran cyfranogiad cynhwysol ac amseriad y gweithgareddau.

Nodwyd y byddai GC yn cael ei gwahodd i gyfrannu at drafodaethau yn y dyfodol.

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn gwahodd GC i un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.**

| **48.13** | **Diweddariad y Cadeirydd** |
|---|---|

- **Croesawu Cadeirydd Newydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu – Y Cynghorydd Keith Evans**

Croesawodd HLL y Cynghorydd Keith Evans a nododd, oherwydd nad oedd digon o amser, y byddai diweddariad Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn cael ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod nesaf. Nododd HLL rôl bwysig y Pwyllgor Craffu yn y gwaith a fyddai'n digwydd ar ôl uno'r ddau Fwrdd.

- **Sylwadau am Adroddiad Blynyddol 2025/26**

Oherwydd nad oedd digon o amser, ni thrafodwyd yr eitem hon.

| **48.14** | **Adborth Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion** |
|---|---|

- **Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 13 Ebrill, 2026**

Oherwydd nad oedd digon o amser, ni thrafodwyd yr eitem hon.

| **48.15** | **Unrhyw Fater Arall** |
|---|---|

Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, diolchodd MH i'r Cadeirydd am ei harweiniad dros y blynyddoedd diwethaf, gan nodi ei chyfraniad rhagorol a'i gwaith cadarn yn hyrwyddo buddiannau Ceredigion a'r Bwrdd yn lleol ac yn rhanbarthol.

Dywedodd TB mai'r cyfarfod nesaf fyddai cyfarfod cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Gaerfyrddin ar ôl yr uno ac ychwanegodd mai'r eitem gyntaf ar yr agenda fyddai

DRAFT

| | |
|---|---|
| enwebu Cadeirydd y Bwrdd. | |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf: 15 Medi 2026, 2-4pm (cyfarfod wyneb yn wyneb i'w gynnal ar safle Prifysgol y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan gyda chinio ysgafn o 1p.m)** |

| **Cofnod o'r Camau Gweithredu** | | |
|---|---|---|
| **1.** | Byddai Elinor Ashworth Chandler yn cael ei gwahodd yn ôl i un o gyfarfodydd y dyfodol i adolygu'r ymatebion a gafwyd ynghylch anghenion pobl hŷn yng Ngheredigion, ar ôl y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch y Strategaeth Oed-gyfeillgar.<br><br>*Byddai diweddariad ar y Strategaeth Oed-gyfeillgar yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 22 Mehefin 2026. (cyf 48.10).* | **Elinor Ashworth-Chandler**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **2.** | Byddai Rob Starr yn darparu'r adroddiad terfynol ynghylch data gwledig yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.<br><br>*Yn amodol ar gapasiti, byddai modd ystyried y gwaith hwn yn y cyfarfod nesaf. Ond, efallai y byddai angen adolygu hyn ymhellach gan mai dim ond at Geredigion y byddai'r adroddiad yn cyfeirio.*<br>*Byddai unrhyw ddiweddariadau pellach yn cael eu rhannu ag aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion fel y bo'n briodol.* | **Rob Starr**<br><br>**Yn parhau** |
| **3.** | Byddai pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn archwilio'r Traciwr a byddent yn rhannu unrhyw adborth ychwanegol â TB a LW.<br><br>*Mae hyn yn parhau.* | **Rob Starr**<br><br>**Yn parhau** |
| **4.** | Byddai TB a LW yn anfon dogfen fframwaith yr adroddiad blynyddol ymlaen at Michael Thomas fel y gallai roi sylwadau yn ei chylch.<br><br>*Mae hyn bellach wedi'i wneud.* | **Y Tîm Partneriaethau**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **5.** | Yn yr adroddiad am uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, byddai geiriad y troedyn ar yr effaith ariannol yn cael ei ddiwygio gan TB.<br><br>*Mae hyn bellach wedi'i wneud.* | **Y Tîm Partneriaethau**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **6.** | Byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried ymhellach y geiriad yn y Cylch Gorchwyl drafft ynghylch sicrhau consensws wrth wneud penderfyniadau.<br><br>*Cafodd hyn ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Uno.* | **Y Tîm Partneriaethau**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **7.** | Byddai Cathryn Morgan a Llinos Evans yn cysylltu â Michael Thomas i drafod y cwestiynau ymgysylltu.<br><br>*Mae hyn bellach wedi'i wneud.* | **Cathryn Morgan**<br>**Llinos Evans**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **8.** | Byddai pob partner yn cyfrannu at waith y grŵp asesu ac ymgynghori. | **Cathryn Morgan**<br>**Llinos Evans**<br><br>**Yn parhau** |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | *Caiff diweddariadau eu darparu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.* | |
| **9.** | Byddai MH yn gwneud ymholiadau ynglŷn â rhannu data am bobl agored i niwed rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r awdurdod lleol.<br><br>*Dylai pwysigrwydd rhannu data barhau fel cam gweithredu fel y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei ystyried.* | **Megan Harris**<br><br>**Yn parhau** |
| **10.** | Byddai gwaith pellach ar y mesurau lliniaru a nodwyd yn yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Llesiant ar y cyd.<br><br>*Mae hyn bellach wedi'i wneud.* | **Y Tîm Partneriaethau**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **11.** | Byddai'r Tîm Partneriaethau yn gwneud ymholiadau ynghylch y posibilrwydd o gael cymorth pellach gan Broject Dewi.<br><br>*Roedd y trafodaethau â Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru yn parhau a byddai diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.* | **Y Tîm Partneriaethau**<br><br>**Yn parhau** |
| **12.** | Byddai pob aelod yn adolygu'r Adroddiad Blynyddol drafft ac yn cyflwyno unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu newidiadau i Tim Bray erbyn 29 Mehefin 2026.<br><br>*Roedd y fersiwn ddrafft wedi'i rhannu ac roedd y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau,* | **Pob aelod**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **13.** | Bydd y Tîm Partneriaethau yn ymgorffori unrhyw adborth a dderbynnir ac yn dosbarthu'r fersiwn derfynol yn ôl i'r aelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol terfynol i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion ym mis Hydref 2026.<br><br>*Mae'r fersiwn derfynol wedi'i dosbarthu i'r aelodau. Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer cyflwyno i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.* | **Y Tîm Partneriaethau**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |
| **14.** | Byddem yn parhau i ganolbwyntio ar dlodi gwledig yn y Cynllun Gweithredu Interim ar y Cyd a byddai camau gweithredu uniongyrchol yn cael eu cynnwys yn y cynllun cyflawni.<br><br>*Roedd hyn wedi'i gynnwys yn y Cynllun Interim ar y Cyd* | **Tim Bray/Llinos Evans** |
| **15.** | Byddai'r Bwrdd Iechyd yn adolygu cynrychiolaeth y Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>*Roedd hyn yn cael ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Uno.* | **Tim Bray/Llinos Evans** |
| **16.** | Yn dilyn trafodaethau mewnol o fewn eu sefydliadau, byddai'r aelodau yn cysylltu â Tim Bray i ddarparu unrhyw ddiweddariadau, cywiriadau, neu gadarnhad o enwau ar gyfer aelodaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig.<br><br>*Cafodd hyn ei wneud gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Uno.* | **Pob aelod**<br><br>**Wedi'i gwblhau** |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| **17.** | Yn ystod cyfarfod cyntaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ar ôl yr uno, byddai Tim Bray yn cadarnhau trefniadau'r is-grŵp newid hinsawdd a'r strwythurau partneriaeth ar gyfer y dyfodol.<br><br>*I'w ystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 15 Medi.* | **Tim Bray**<br><br>**Yn parhau** |
| **18.** | Byddai'r Tîm Partneriaethau yn gwahodd GC i un o gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.<br><br>*I'w ystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 15 Medi.* | **Y Tîm Partneriaethau**<br><br>**Yn parhau** |
| **19.** | Byddai'r Tîm Partneriaethau yn gwahodd Elinor Ashworth-Chandler i roi diweddariad pellach i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn un o gyfarfodydd y dyfodol.<br><br>*I'w ystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn un o gyfarfodydd y dyfodol.* | **Y Tîm Partneriaethau**<br><br>**Yn parhau** |

DRAFT